CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 12fed o Fai 2025 am 6.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Miriam Webb, Dylan Jarman, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) Huw T Jones (Clerc) ac un aelod o'r cyhoedd.

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Eleri Puw.

Aethpwyd ymlaen I dderbyn adroddiad blynyddol gan y Cadeirydd Elwyn Evans am y flwyddyn 2024-25.
Adroddodd fod y Cyngor wedi cyfarfod ar yr ail nos Lun ymhob mis (ag eithrio mis Awst a Rhagfyr) ac wedi sicrhau fod arian y terthdalwyr yn cael ei wario yn effeithiol. Roedd y Cyngor wedi ymateb i faterion cynllunio ac arianol mor brydlon ac effeithiol a phosib, ac wedi ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd fel bo'r galw. Rhoddwyd sylw manwl I asedau'r Cyngor, yn arbennig y mynwentydd, a oedd yn cael eu goruchwylio yn rheolaid. Roedd y Cae chwarae wedi cael sylw manwl , gyda gwelliannau wedi eu gwneud. Bu ymgynghori manwl gyda'r Grwp Llechi yn lleol, cyswllt gyda Chyngor Gwynedd, a'r gwaith yn parhau.
Diolchodd yn fawr iawn I'r Clerc Huw Jones am ei holl waith yn ystod y flwyddyn, ac I'r Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) am ei hymdrechion yn helpu gyda'r gwaith ymhob ffordd bosib. Hefyd diolchodd I'r holl gynghorwyr Cymuned am eu gwaith a'u cydweithrediad.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol, ond nid oedd am roi unrhyw sylwadau, ond yn hytrach gwrando am y drafodaeth.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Ebrill** ar gynnig Cyng.Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Miriam Webb.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Trafodwyd ymhellach ymholiadau am lwybrau, a byddai adroddiad yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd nifer o gamfeydd wedi eu gosod.

Adroddwyd yn llawn yr ymateb i'r sylw fod car ar ffordd y Baciau, ger Capel Jeriwsalem, a'i fod ar dir preifat

b) **Rheilffordd Talyllyn /Safle treftadaeth** - nodwyd y drafodaeth gyda grwp LleChi Lle Ni yn gynharach yn y prynhawn ynglyn a'r arian a ddynodwyd i Abergynolwyn. Roedd penderfyniad i gael wagen lechi, ac roedd angen gwybod ble yn union i'w gosod, a'r union faint. Roedd angen gwneud cysllwt eto gyda Liz Porrett. Ni fyddai mwy o ymgysylltu gyda'r cyhoedd, ond roedd angen trafod digwyddiadau fel rhan o'r gwaith celf. Penderfynwyd gwahodd Jayne Mills i'r cyfarfod nesaf.

c) **Ansawdd dwr/ carthffosiaeth - Abergynolwyn** - darllenwyd ymateb pellach gan Dwr Cymru dyddiedig 25ain Ebrill. Nodwyd fod angen diolch am yr ymateb, ond bod ymweliad pellach tua 2 wythnos yn ol, lle cadarnhwyd fod blas drwg yn parhau.

d) **Arwyddion y cae chwarae –** adroddwyd e-bost gan Emrys, a llun o ddau arwydd sydd angen eu cael o'r newydd. Addawodd Cyng Beth Lawton gael arwydd 'DIM BEICIAU; NO BIKES' ac addawodd Cyng Elwyn Evans gael amcanbris gan gwnmi yn Dolgellau am arwydd oedd angen ei diweddaru – sef 'DIM CWN AR Y CAE CHWARAE; NO DOGS IN PLAYING FIELD'.

5. **Materion Cynllunio**

Roedd un cais i law ers danfon allan yr agenda, sef NP5/67/LB221A.

Caniatad adeilad rhestredig i ddymchwel simnia presennol, gosod hambyrddau atal tamprwydd, ac ail – adeiladu y simnai gan ddefnyddio y deunyddiau presennol yn **4, Tany Bryn, Abergynolwyn**.

Penderfynwyd fod pawb yn gefnogol i'r cais gan fod hwn yn welliant i'r adeilad, ac yn defnyddio deunyddiau lleol.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Adroddwyd fod Cyfrifon 2024-25** bellach wedi bod drwy law yr archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Fe'i cyflwynwyd yn ffurfiol I'r Cynghorwyr. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn I'w pasio ymlaen I'r Archwilydd allanol maes o law. Nodwyd hefyd fod hysbysiad cyhoeddus wedi ei baratoi i fynd ar y wefan a'r hysbysfwrdd maes o law. .

Cadarnhwyd hefyd fod y claim y VAT am 2024-25 wedi ei gwbwlhau a'i ddanfon, a bod y Clerc wedi atgoffa Swyddfa HMRC nad oedd y taliad am ad-daliad y TAW am 2022-2023 a 2023-24 wedi ei dderbyn.

b) **Anfonebau**; - ar gynnig Cyng Robert D Jones a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Anfoneb RA Davies am dorri gwair y cae chwarae a mynwent Llanfihangel y Pennant - £600. (roedd gostyngiad o £80 oherwydd peidio torri lle roedd blodau)
- Anfoneb GL Jones Playgrounds am waith yn y cae chwarae £6944.40.

  (cadarnhawyd fod y siec am £346.97 am yswiriant y Cyngor wedi ei chyflwyno ers cyfarfod diwethaf, a bod yr holl Gyngorwyr wedi cael copi o'r polisi, a bod y 'cover' yn ddigonol)

b) **Ceisiadau am arian** – nodwyd y canlynol ers y cyfarfod diwethaf;

- Ambiwlans Awyr Cymru – nodwyd nad oedd datblygiad gyda'r Adolygiad Barnwrol, ac y byddai rhaid trafod y tro nesaf.
- Marie Curie – penderfynwyd peidio cyfrannu, oherwydd nad oedd gweithgarwch yn lleol gan yr elusen.

7.**Ethol Swyddogion 2025-26.**

**Cadeirydd** – ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'I eilio gan Cyng Dylan Jarman, cytunwyd yn unfrydol ar enw **Cyng Elwyn Evans yn Gadeirydd am 2025-26**, a'r **Cyng Miriam Webb yn Is- gadeirydd am 2025-26.**

**8. Cyflog a Thelerau y Clerc 2025-26**

Rhoddwyd cyfle I'r Cynghrowyr gael trafododaeth eu hunain yn y cyswllt yma. Cadarnhawyd yr un telerau ar gyfer 2025-26, sef cydnabyddiaeth o £2000 a chostau o £500. Nodwyd y dylid cytuno ffigwr o gynnydd yn y taliad i'w roi yn y gyllideb blwyddyn 2026-27.

9. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanfihangel y Pennant ar gyfer 2025-26.**

Cytunwyd I gyfarfod ar yr ail Nos Lun ym mis Mehefin , sef 9/06/25. Ar gais y Clerc, cytunwyd i ystyried cyfarfod ar yr ail nos Fawrth yng ngweddill y flwyddyn, ag eithrio miseodd Awst a Rhagfyr. Byddai rhaid cadarnhau yn y cyfarfod nesaf, gyda sicrwydd y byddai'r Ganolfan ar gael.

Byddai'r Clerc wedyn yn cadarnhau ar wefan y Ganolfan ac ar wefan y Cyngor.

10. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau i'w cwbwlhau gan Gynghorwyr a chawsant eu dychwelyd.**

Ar gynnig Cyng Roebrt D Jones a'I eilio gan Cyng Steve Lewis, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol;

**Cod ymddygiad** – nodwyd gopiau caled oedd ar gael.

**Rheoliadau arianol a rheolaidau sefydlog**

**Asesiad risg mynwent y Llan a'r Fedw, ynghyd a'r Cae chwarae a'r materion ariannol y Cyngor** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

**Cofrestr asedau** – a oedd wedi ei ddosbarthu ymlaenllaw i'r Cynghorwyr a chadarnhawyd y ffigwr o £19115.00

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

11. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Un Llais Cymru – Cyng Elwyn Evans a Emrys Thompson

Corff Llydoraethol Ysgol Craig yr Aderyn – Cyng Elwyn Evans

Y Ganolfan – Cyng Miriam Webb a Steve Lewis

Goruchwyliwr Mynwent y Llan – Cyng Robert D Jones

Goruchwyliwr Mynwent y Fedw a'r Cae Chwarae – Cyng Emrys Thompson.

Cartref Mari Jones – Cyng Emrys Thompson

12. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Derbyniwyd adroddiad gan Cyng Beth Lawton am ei gwaith yn yr ardal, gan gyfeirio at ymholiadau gyda ffyrdd yr ardal, ac hefyd y diweddaraf gyda Ysbyty Tywyn.

13. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

    Adroddwyd fod y Pwyllgor Ardal nesaf ar nos Fercher 14eg o Fai.

14. **Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - nid oedd ymateb pellach gan Ben Thomas yn dilyn y cyfafod diwethaf.. Roedd angen atgoffa er mwyn sicrhau y protocol cywir.

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'**r Clerc y neu dosbarthu i'r Cynghorwyr

c) Roedd y Clerc wedi bod yn rhan o **Fforwm Cymunedau y Parc Cenedlaethol** oedd yn cyfarfod ar yr 8fed o Fai, ac adroddwyd am y materion dan sylw.

d) Adroddwyd am lythyr gan Gadeirydd **Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais**, a'r newidiadau arfaethedig i'r Uned Stroc. Byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu. Roedd cyfarfod cyhoeddus ar yr 20fed o Fehefin

e) Roedd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd ynglyn a lansiad **Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau** – byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu.

f) Roedd gohebiaeth gan RoSPA yn cadarnhau archwiliad eto eleni ar gost o £80.

15. **Unrhyw fater arall**

- Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gwneud y tombola unwaith eto yn y Carnifal yn Abergynolwyn ar y penwythnos olaf Gorffennaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN 9fed Mehefin 2025 , 7.00y.h.**

**.........................................................................................................................**

**CARTREF MARI JONES**

Nodwyd £17.98 yn y blwch rhoddion, a byddai'r Clerc yn bancio

.........................................................................................................................

Minutes of the Council's Annual Meeting held on Monday evening the 12th of May 2025 at 6.00pm

in the Centre, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Miriam Webb, Dylan Jarman, Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) Huw T Jones (Clerk) and one member of the public.

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was an apology from Cllr Eleri Puw.

An annual report was received from the Chairman Elwyn Evans for the year 2024-25.

He reported that the Council met on the second Monday night of every month (except August and December) and ensured that the taxpayers' money was spent effectively. The Council had responded to planning and financial issues as promptly and effectively as possible, and had responded to inquiries from the public as required. Detailed attention was paid to the Council's assets, especially the cemeteries, which were regularly supervised. The Playground had received detailed attention, with improvements made. There was detailed consultation with the Llechi Group locally, contact with Gwynedd Council, and the work continues.

He thanked Clerk Huw Jones very much for all his work during the year, and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council) for her efforts helping with the work in every possible way. He also thanked all the Community councilors for their work and cooperation.

2, It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matters on the Agenda. One member of the public was present, but did not want to give any comments, but rather listen to the discussion.

3. The minutes of the meeting held on the 14th of April were confirmed on the proposal of Cllr. Emrys Thompson and seconded by Cllr Miriam Webb.

4. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

Inquiries about routes were further discussed, and there would be a report at the next meeting. A number of stiles were noted to have been installed.

The response to the comment that there was a car on the Baciau road, near Jerusalem Chapel, and that it was on private land was reported in full.

b) Talyllyn Railway / Heritage site - the discussion with the LleChi Lle Ni group earlier in the afternoon regarding the money designated for Abergynolwyn was noted. There was a decision to have a slate wagon, and it was necessary to know exactly where to place it, and exactly how much. Contact needed to be made again with Liz Porrett. There would be no more engagement with the public, but events needed to be discussed as part of the artwork. It was decided to invite Jayne Mills to the next meeting.

c) Quality of water/sewerage - Abergynolwyn - a further response from Dwr Cymru dated 25th April was read. It was noted that a thank you was needed for the response, but that there was a further visit about 2 weeks ago, where it was confirmed that the bad taste continued.

d) Playground signs - an email from Emrys was reported, and a picture of two signs that need to be renewed. Cllr Beth Lawton promised to get a DIM BEICIAU; NO BIKES' and Cllr Elwyn Evans promised to get an estimate from a company in Dolgellau for a sign that needed updating - namely 'DIM CWN YN Y CAE CHWARAE; NO DOGS IN PLAYING FIELD'.

5. Planning Matters

There was one request received since the agenda was sent out, namely NP5/67/LB221A.

Listed building permission to demolish an existing chimney, install trays to prevent tampering, and re-build the chimney using the existing materials at 4, Tany Bryn, Abergynolwyn.

It was decided that everyone is supportive of the application as this is an improvement to the building, and uses local materials.

6. Finance Matters.

a) It was reported that the 2024-25 Accounts have now been through the hands of the internal auditor, and have now been returned without any queries. It was formally presented to the Councillors. It was confirmed that everything was complete to be passed on to the external

Auditor in due course. It was also noted that a public notice had been prepared to go on the website and the notice board in due course. .

It was also confirmed that the VAT claim for 2024-25 had been completed and delivered, and that the Clerk had reminded the HMRC Office that the payment for the VAT refund for 2022-2023 and 2023-24 had not been received.

b) Invoices; - on the proposal of Cllr Robert D Jones and seconded by Cllr Gwynedd Roberts, it was agreed to pay the following;

• RA Davies invoice for cutting the grass of the playing field and Llanfihangel y Pennant cemetery - £600. (there was a reduction of £80 due to not cutting where there were flowers)

• GL Jones Playgrounds invoice for work in the playground £6944.40.

(it was confirmed that the cheque for £346.97 for the Council's insurance had been presented since the last meeting, and that all the Councilors had received a copy of the policy, and that the 'cover' was sufficient)

c) Requests for money - the following was noted since the last meeting;

• Cymru Air Ambulance - it was noted that there was no development with the Judicial Review, and that it would have to be discussed next time.

• Marie Curie - it was decided not to contribute, because there was no activity locally from the charity.

7.Election of Officers 2025-26.

Chairman - on the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Dylan Jarman, it was unanimously agreed on the name of Cllr Elwyn Evans as Chairman for 2025-26, and Cllr Miriam Webb as Vice-chairman for 2025-26.

8. Clerk's Salary and Terms 2025-26

The Councilors were given the opportunity to have their own discussion in this connection. The same terms were confirmed for 2025-26, namely remuneration of £2000 and costs of £500. It was

noted that a figure of an increase in the payment should be agreed to be given in the budget for the year 2026-27.

9. To confirm the dates of the remaining meetings of Llanfihangel y Pennant Council for 2025-26.

It was agreed to meet on the second Monday in June, namely 9/06/25. At the request of the Clerk, it was agreed to consider a meeting on the second Tuesday night in the rest of the year, except in the months of August and December. It would have to be confirmed at the next meeting, with certainty that the Ganolfan would be available.

The Clerk would then confirm on the Ganolfan website and on the Council's website.

10. Register of interests forms were distributed to be completed by Councilors and were returned.

On the motion of Cllr Roebrt D Jones and seconded by Cllr Steve Lewis, and with everyone's agreement, the following was adopted;

Code of conduct - hard copies available were noted.

Financial regulations and standing regulations

Risk assessment of the Llan a yr Fedw cemetery, together with the Playground and the Council's financial matters (which had been distributed in advance to the Councillors)

Asset register - which had been distributed in advance to the Councilors and the figure of £19115.00 was confirmed

The other policies were also adopted - concerns and complaints, equal opportunities, environmental, biodiversity, data protection and freedom of information (all of which are on the Council's website)

11. Representation of the Community Council on external committees / organisations.

The following was confirmed;

One Voice of Wales – Cllr Elwyn Evans and Emrys Thompson

Ysgol Craig yr Aderyn Governing Body - Cllr Elwyn Evans

Y Ganolfan – Cllr Miriam Webb and Steve Lewis

Llan Cemetery Supervisor – Cllr Robert D Jones

Fedw Cemetery and Playground Supervisor - Cllr Emrys Thompson.

Cartref Mari Jones – Cllr Emrys Thompson

12. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

A report was received from Cllr Beth Lawton about her work in the area, referring to inquiries with the roads in the area, and also the latest with Ysbyty Tywyn.

13. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

It was reported that the next Area Committee is on Wednesday 14th of May.

14. Correspondence.

a) Matters of Llanfihangel y Pennant cemetery - there was no further response from Ben Thomas following the last meeting.. A reminder was needed to ensure the correct protocol.

b) Un Llais Cymru training sessions were identified, and the Clerk would distribute them to the Councillors

c) The Clerk had been part of the National Park Communities Forum which met on the 8th of May, and the issues in question were reported.

d) Reported on a letter from the Chairman of Protection of Bronglais Services, and the proposed changes to the Stroke Unit. The Clerk would distribute it. There was a public meeting on 20th June.

e) There was correspondence from Gwynedd Council regarding the launch of the Community Regeneration Support Fund - the Clerk would distribute it.

f) Correspondence from RoSPA confirmed an inspection again this year at a cost of £80.

15. Any other matter

• It was agreed that the Community Council would do the tombola once again at the Carnival in Abergynolwyn on the last weekend of July.

DATE OF NEXT MEETING; Y Ganolfan , ABERGYNOLWYN MONDAY 9th June 2025, 7.00 p.m.

.CARTREF MARI JONES

£17.98 was noted in the donation box, and the Clerk would bank